GALWAD I WEDDI 2020

GWAHODDIAD I YMUNO GYDA NI I WEDDIO AM WAITH DUW YNG NGHYMRU

MUDIAD EFENGYLAIDD CYMRU
YN GWASANAETHU'R EGLWYS

DIRGELWCH MAWR GWEDDI

Mae *Galwad i Weddi* MEC wedi ei roi i annog plant Duw i ymuno gyda'i gilydd i ofyn i Dduw weithio'n bwerus yn ein gwlad.

Un o ddirgelion mawr gweddi yw ei fod yn cysylltu dau beth, sydd ar yr olwg gyntaf, yn hollol groes i'w gilydd.

1. Rydym yn agosáu at Dduw sydd yn dân ysol, yn hollol sanctaidd ac yn casáu pechod

2. Eto, ar yr un amser, cawn ein gwahodd i siarad gyda Duw fel y mae plentyn yn siarad gyda'i dad: yn hollol onest a didwyll, ac yn llawn hyder o'i gariad a'i allu i'n helpu.

Sut mae modd cysoni'r ddau beth?

Nid yw'n golygu mai'r unig rai all weddïo yw'r rhai sydd heb bechu. Yn hytrach mae'n golygu mai'r rhai sydd yn medru gweddïo yw'r rhai sydd wedi derbyn maddeuant pechodau drwy aberth yr Arglwydd Iesu Grist ar y groes.

I weddïo'n gymeradwy:

1 Rhaid i ni fod yn Gristnogion gwirioneddol, sydd wedi profi maddeuant drwy waed y groes- sut arall y medrwn ni ei alw'n Dad!

2 Rhaid i ni fod yn Gristnogion gwirioneddol sydd â chydwybod glan nad oes gennym bechod sydd heb ei gyffesu a all dorri ein perthynas gyda Duw - sut arall y medrwn ni ddisgwyl i gael ein clywed!

Ond eich camweddau chwi a ysgarodd rhyngoch a'ch Duw, a'ch pechodau chwi a barodd iddo guddio'i wyneb fel nad yw'n eich clywed. Eseia 59:2

Roedd John Newton yn deall hyn:

With my burden I begin:
Lord, remove this load of sin;
Let Thy blood, for sinners spilt,
Set my conscience free from guilt.

Ond mae mwy. Yn aml mae ein gweddïau yn cael eu heffeithio gan ein rhagfarnau, anghydbwysedd a'n pwyslais ni. Er mwyn i'n gweddïau fod yn dderbyniol i Dduw rhaid i Iesu eu glanhau hwy hefyd gyda'i waed. Yn yr Hen Destament roedd yr arogldarth oedd yn cael ei ddefnyddio yn y tabernacl yn symbol o weddïau ac addoliad y bobl, ac roedd allor yr arogldarth yn cael ei lanhau gyda gwaed yr aberth dros bechod, Ex. 30:10. Yn yr un modd mae ein haberthau ysbrydol ni yn gymeradwy i Dduw drwy Iesu Grist, 1 Pet. 2:5.

Felly am beth ddylem weddïo? Ewyllys yr Arglwydd a bendith Duw, ac mae hynny'n golygu bod yn rhaid i ni blygu a dweud "Gwneler dy ewyllys".

Yn yr wythnos a'r flwyddyn nesaf, boed i ni:

– fod eisiau ewyllys yr Arglwydd uwchben unrhyw beth arall;

– ymddiried yn ei ddaioni;

– ymbil am ei drugaredd;

– diolch iddo am ei ras.

- Mark Thomas
(Ysgrifennydd Cyffredinol MEC)

SUT I DDEFNYDDIO'R CANLLAW

Ein gobaith wrth gynhyrchu'r canllaw yma yw eich helpu i weddïo (dros Gymru) a cheisio wyne yr Arglwydd. Rydym wedi selio pob dydd ar addewid gwahanol o'r gair yn y goaith y bydd yn ein harwain at Dduw. Nid ydym am hyrwyddo MEC - does gennym ddim diddordeb mewn gwneud hynny. Diolchwn fod gwaith yr efengyl yn mynd ymlaen yn ein gwlad drwy gymaint o Gristnogion, eglwysi a mudiadau gwahanol, a gobeithiwn y bydd y canllaw yn gymorth i chi weddïo am ba bynnag waith sy'n digwydd. Nid yw'n bosib i ni gynnwys popeth sy'n digwydd yng Nghymru mewn llyfryn; rydym wedi rhoi ambell i enghraifft benodol. Defnyddiwch yr enghreifftiau yma, ond peidiwch â chyfyngu eich hunain iddynt. Mae'r angen yn fawr, ond diolch byth fod yr Arglwydd yn fwy!

BETH SYDD WEDI EI GYNNWYS

ADNOD DDYDDIOL

I selio ein gweddiau yn yr Ysgrythur.

DEFOSIWN BYR

Paragraff byr yn cyflwyno'r thema bob dydd.

ENGHREIFFTIAU

Nifer o enghreifftiau o Gymru o sefyllfaoedd arbennig y medrwch weddïo amdanynt. Mae'r rhain yn cynnwys gweinidogaethau MEC a rhai sydd heb eu trefnu gan MEC.

PWYNTIAU GWEDDI

Wedi ei rannu yn bedair rhan:

***Diolchgarwch a Mawl* – i ddiolch i Dduw am beth y mae'n ei wneud;**

***Ymateb ac Ystyried* – cyfle i edrych ar ein calonnau a'n hymddygiad ein hunain;**

***Gofyn* – i ofyn i Dduw weithio;**

CYSYLLTU Â NI

Os hoffech roi adborth, gofyn am weddi arbennig neu wybod mwy am waith MEC a'r hyn y medrwn ei gynnig yna cysylltwch gyda Steffan Job yn swyddfa'r Gogledd neu drwy'r wefan.

SWYDDFA GOGLEDD MEC
Canolfan Gristnogol Manna, 31 Ffordd Caergybi, Bangor, Gwynedd, LL57 2EU | 01248 354653
swyddfa@mudiad-efengylaidd.org | Rhif Elusen 222407 | www.mudiad-efengylaidd.org

MAE DUW YN EIN CARU

> *Yr wyf yn gwbl sicr na all nac angau nac einioes, nac angylion na thywysogaethau, na'r presennol na'r dyfodol, na grymusterau nac uchelderau na dyfnderau, na dim arall a grewyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.*
>
> Rhufeiniaid 8:38-39

Rydym yn dechrau'r wythnos drwy edrych ar y gwirionedd ac addewid rhyfeddol yma sydd yn y llythyr i'r Rhufeiniaid. Nid oes modd i ddim ein gwahanu oddi wrth gariad Duw. Mae hwn yn addewid arbennig iawn, fel yr esboniodd Mark ddoe yn ei gyflwyniad i'r wythnos o weddi. Sut mae modd i ni ddod o flaen Duw cyfiawn a sanctaidd yn ein cyflwr pechadurus a disgwyl iddo wrando? Dim ond trwy Ei gariad rhyfeddol yn yr Arglwydd Iesu Grist. Medrwn fod yn sicr os ydym wedi ein huno a Christ, yna fyddwn ni byth yn cael ei gwahanu oddi wrtho.

Nid ydym yn byw mewn amseroedd hawdd - rydym yn ymwybodol o frwydrau y tu allan i'r eglwys - difaterwch, seciwlariaeth a gelyniaeth. Mae hefyd brwydrau y tu mewn i'r eglwys - rhai arweinwyr yn disgyn, diffyg defosiwn i'r Arglwydd a rhai Cristnogion yn dadlau. Gall y rhain i gyd gael effaith ar ein cerddediad ysbrydol. Sut mae sefyll?

Rhaid edrych i Grist. Cawn nerth i sefyll wrth brofi fod ein pechodau wedi eu maddau a deall mai Ef yw'r Arglwydd. Os ydym wedi ein hachub yna gallwn fod yn sicr na all dim ein gwahanu oddi wrth ei gariad. Dyma'r lle y dechreuwn ein hwythnos weddi.

PWYNTIAU GWEDDI

DIOLCHGARWCH A MAWL

Diolchwch i Dduw am ei ras a'r sicrwydd ein bod yn ddiogel ac wedi ein hachub. Rydym wedi ein caru uwchlaw deall!

YMATEB AC YSTYRIED

Ydych chi yn amau neu yn cymryd cariad Duw yn ganiataol?

GOFYN

Gofynnwch y bydd pobl Duw yng Nghymru yn cael eu hadnabod fel pobl o ddiolchgarwch a ffydd. Gweddiwch y byddwn yn parhau i edrych ar Iesu drwy bob brwydr ac anhawster.

ENGHREIFFTIAU O GYMRU

Roedd wythnos ddiwethaf yn amser o fendith yn y mini-Gwersyll ym Mryn y groes. Byddai nifer o Gristnogion ifanc yn cyfarfod bob bore i weddio. Diolch i Dduw y medrwn edrych ar y bobl ifanc hyn gan wybod, os ydyn nhw wedi ei hachub, y byddant yn sefyll yn gadarn.

Mae'n hawdd i ni anghofio'r cariad y mae Duw wedi ei ddangos tuag atom yng Nghymru - mae cannoedd o eglwysi'r efengyl yn ein gwlad. Does dim angen teithio yn rhy bell i gael cwmni Cristion arall.

Mae'r Beibl yn ein hiaith ni.

MUDIAD EFENGYLAIDD CYMRU
YN GWASANAETHU'R EGLWYS
www.mudiad-efengylaidd.org
Elusen 222407

NID YW'R GWAITH YN OFER

Rwy'n aml yn meddwl fod wythnos o ymgyrch yn rhyw ficrocosm o'r bywyd Cristnogol. Rydym yn cychwyn yr wythnos yn llawn egni ac yn ddisgwylgar o'r hyn y gall Duw ei wneud. Rydym yn gweld yr angen, ac er ein bod yn wan, rydym yn ymwybodol o'r potensial o'r hyn y gall Duw ei wneud. Ond mae pethau yn aml yn newid wrth i'r wythnos fynd rhagddi... rydym yn llafurio, yn rhannu'r efengyl, yn ceisio bendith yr Arglwydd, eto yn gweld ychydig o ffrwyth. Mae'n hawdd cwestiynu beth yr ydym yn ei wneud ac oes pwynt i'r cyfan.

Ydych chi'n teimlo fel hyn weithiau?

Ar adegau fel hyn rhaid i ni ddal at yr addewid mawr a roddodd Paul i'r Corinthiaid - nid yw ein llafur yn ofer. Gallwn fod yn sicr fod Duw ar waith a'i fod yn ein defnyddio er Ei ogoniant.

Medrwn edrych ar ein calonau ein hunain a meddwl nad ydym yn tyfu fel yr hoffem. Gallwn edrych ar ein heglwys a chwestiynu pam nad ydym yn gweld mwy o dyfiant neu mwy yn dod i gredu. Mae'n iawn ein bod yn gwneud hyn ac yn chwilio ein calonau i weld a oes rheswm nad yw Duw yn bendithio - ond rhaid i ni beidio byth ac anobeithio. Nid yw ein gwaith dros yr Arglwydd yn ofer. Byddwn yn edrych yn ol rhywbryd ar ein dyddiau ni gan ryfeddu fel yr oedd yr Arglwydd yn defnyddio tapestri ein trafferthion, methianau ac anogaethau er Ei ogoniant!

"Felly, fy nghyfeillion annwyl, byddwch yn gadarn a diysgog, yn helaeth bob amser yng ngwaith yr Arglwydd, gan eich bod yn gwybod nad yw eich llafur yn yr Arglwydd yn ofer.

1 Corinthiaid 15:58

PWYNTIAU GWEDDI

DIOLCHGARWCH A MAWL

Diolch i Dduw am ei addewid rhyfeddol. Diolchwch fod y gwaith yn dibynnu arno Ef, nid arnom ni.

YMATEB AC YSTYRIED

Sut ydych chi'n ymagweddu tuag at yr hyn y mae Duw yn ei wneud yn eich eglwys? Sut gall yr addewid hwn eich helpu?

GOFYN

Gofynnwch i Dduw annog ei bobl yng Nghymru - mae nifer o eglwysi'r efengyl yn fach gyda Christnogion ffyddlon ynddynt. Gweddiwch y bydd Duw yn rhoi doethineb iddynt.

ENGHREIFFTIAU O GYMRU

Mae nifer o eglwysi bach sydd wedi bod yn ffyddlon ers blynyddoedd wedi cael eu hannog yn ddiweddar - gydag Eglwysbach a Roch yn enghreifftiau.

Dros y blynyddoedd nesaf byddwn yn gweld nifer o weinidogion yn ymddeol. Maent wedi gweinidogaethu yn ffyddlon mewn amgylchiadau anodd yn aml. Gweddiwch dros y rhai fydd yn cymryd eu lle.

MUDIAD EFENGYLAIDD CYMRU
YN GWASANAETHU'R EGLWYS
www.mudiad-efengylaidd.org
Elusen 222407

BYDD IESU YN CAEL EI OGONEDDU

Dydd Mawrth

Cawn ein goleuo i ffaith syfrdanol pan fyddwn yn cael ein trosglwyddo i deyrnas Dduw - fedrwn ni ddim gwneud hyn ar ben ein hunain. Taflwn ein hunain ar drugaredd un arall wrth i'n calonnau byw sylwi ein bod yn euog, wedi ein gwahanu oddi wrth ein creawdwr a heb obaith yn y byd. Yn Iesu, gwelwn ogoniant a thrugaredd Duw yn cael ei amlygu, a trwy ffydd, rydym yn galw allan ac yn ymddiried ynddo.

Mae'r Beibl yn dysgu fod yn rhaid i ni barhau yn ein cerddediad ysbrydol yn yr un ffordd - fedrwn ni ddim gwneud pethau ar ben ein hunain. O'r fath gysur sydd yna o wybod fod Crist wedi rhoi'r Ysbryd i arwain a chadw'r Eglwys a'i fod yn byw yng nghalon pob Cristion. Fel mae'r adnodau yn dweud, rhaid i ni ddibynnu ar yr Ysbryd a gwrando arno. Ond rhaid i ni beidio meddwl fod yr Ysbryd yno ar ein cyfer ni yn unig, mae yna wirionedd dyfnach yng ngeiriau Iesu: Bydd yr Ysbryd yn gogoneddu Crist.

Beth ydym ni eisiau ar gyfer Cymru? Er bod ein cymhellion yn medru bod yn gywir, rydym yn aml yn dod at Dduw gyda'n hagenda a'n syniadau ni ein hunain, ond mae'n rhaid i ni sylweddoli ein bod yn edrych ar bethau gyda llygaid meidrol. Mae'n gysur gwybod y bydd yr Ysbryd yn gogoneddu Crist. Wrth i ni weddïo heddiw, gadewch i ni ofyn i'r Ysbryd arwain ein gweddïau, newid ein calonnau a gweithio yn ein gwlad. Gadewch i ni sylweddoli nad oes modd i ni wneud hyn ar ben ein hunain.

Ond pan ddaw ef, Ysbryd y Gwirionedd, fe'ch arwain chwi yn yr holl wirionedd. Oherwydd nid ohono'i hun y bydd yn llefaru; ond yr hyn a glyw y bydd yn ei lefaru, a'r hyn sy'n dod y bydd yn ei fynegi i chwi. Bydd ef yn fy ngogoneddu i, oherwydd bydd yn cymryd o'r hyn sy'n eiddo i mi ac yn ei fynegi i chwi. Y mae pob peth sydd gan y Tad yn eiddo i mi. Dyna pam y dywedais ei fod yn cymryd o'r hyn sy'n eiddo i mi ac yn ei fynegi i chwi.
Ioan 16:13-15

PWYNTIAU GWEDDI

DIOLCHGARWCH A MAWL

Diolchwch i Dduw'r Tad ei fod wedi rhoi'r Ysbryd i'n harwain ac i ddod a gogoniant i Grist.

YMATEB AC YSTYRIED

Sut medrwn geisio'r Ysbryd a sut medrwn sicrhau ein bod yn gwrando arno?

GOFYN

Gweddïwch y bydd yr Ysbryd yn gweithio ym mhobl Dduw yng Nghymru. Gweddïwch y byddwn yn dibynnu llai arnom ni a'n syniadau ein hunain, gan dreulio mwy o amser yn ceisio Gogoniant Crist drwy geisio'r Ysbryd.

ENGHREIFFTIAU O GYMRU

Rydym wedi clywed yn ddiweddar am rai eglwysi sydd wedi gweld mwy o bobl yn dod i'r cyfarfod gweddi gan eu bod wedi sylweddoli nad oes modd gwneud dim heb bwyso'n llwyr ar yr Arglwydd.

Mae'r diafol yn ymosod ar rai eglwysi drwy dynnu golwg y Cristnogion oddi ar ogoniant Crist sy'n arwain at gweryla a diffyg undeb. Dim ond yr Arglwydd all newid y sefyllfaoedd ofnadwy hyn.

Clywsom yn ddiweddar am farwolaeth bachgen ifanc saith oed yn Sir Fynwy o'r enw Samuel pan gafodd ei daro gan fws-mini. Roedd Samuel a'i rieni yn Gristnogion, ac o ganlyniad i'r drasiedi mae cyfarfod gweddi am ddiwygiad wedi dechrau yn y dref dair gwaith yr wythnos.

MUDIAD EFENGYLAIDD CYMRU
YN GWASANAETHU'R EGLWYS

www.mudiad-efengylaidd.org
Elusen 222407

BYDD DUW YN EIN CADW YN Y GWAITH

Dydd Mercher

Mae Duw yn llawn gras ac mae'n dewis pobl o'i fawr drugaredd. Roedd hyn yn wir am Abraham ac am y genedl Iddewig, ac mae'n parhau i fod yn wir heddiw am bawb sydd wedi eu hachub drwy Grist o eithafion y Ddaear. Gras yw'r cyfan, nid oherwydd ein daioni y cawsom ein dewis ond rhodd ryfeddol drwy'r Arglwydd Iesu Grist i ni. O wybod Ei fod wedi'n dewis rydym yn sicr na fydd byth yn ein gadael, mae Ei olwg ar bob un ohonom, ni fydd yn ein gadael ac fe fydd yn ein cadw i'r diwedd. Am addewid rhyfeddol!

Mae'n hawdd i ni ddisgyn i mewn i survival mode wrth i ni edrych ar ein sefyllfa bersonol a sefyllfa'r eglwys yn ein gwlad - rydym yn teimlo fod y cyfan yn ddibynnol arnom ni wrth i ni weithio i gadw pethau i fynd. Ffrindiau annwyl, rydym wedi ein dewis gan Dduw, a medrwn fod yn siŵr y bydd yn ein cadw a'n cynnal bob cam o'r ffordd!

A gawsom ein hachub drwy ein hymdrechion ein hunain? A wnaethom ni benderfynu achub ein hunain? Ddim o gwbl! Duw wnaeth ein dewis, a llifa afon gref o anogaeth o'r ffaith honno. Mae modd i ni sefyll yn gadarn, mae modd i ni fod yn halen a goleuni, ac mae modd i ni wrthsefyll y diafol, nid oherwydd ein bod ni yn ddigon cryf, ond oherwydd bod Duw yn gryf ac mae E wedi'n dewis.

"Ti, Israel, yw fy ngwas; ti, Jacob, a ddewisais, had Abraham, f'anwylyd. Dygais di o bellteroedd byd, a'th alw o'i eithafion, a dweud wrthyt, 'Fy ngwas wyt ti; 'rwyf wedi dy ddewis ac nid dy wrthod.' Paid ag ofni, yr wyf fi gyda thi; paid â dychryn, myfi yw dy Dduw. Cryfhaf di a'th nerthu, cynhaliaf di â llaw dde orchfygol.

Eseia 41:8-10

PWYNTIAU GWEDDI

DIOLCHGARWCH A MAWL

Meddyliwch am yr holl Gristnogion ac Eglwysi'r efengyl yr ydych yn ymwybodol ohonynt yng Nghymru - diolchwch i Dduw am y gwaith graslon mae'n ei wneud.

YMATEB AC YSTYRIED

Wrth i ni weddïo, ydym ni'n anghofio pwyso ar yr Arglwydd am nerth?

GOFYN

Gweddïwch y byddwn ni fel pobl yr Arglwydd yn pwyso a cheisio Ei nerth.

ENGHREIFFTIAU O GYMRU

Rydym yn ymwybodol o bwysau cynyddol ar nifer o Gristnogion sy'n gweithio mewn swyddi seciwlar wrth i foesoldeb y wlad newid. Gweddïwch y bydd Duw yn rhoi nerth a doethineb i Gristnogion sefyll yn gadarn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae grŵp o amaethwyr wedi bod yn cyfarfod ym Mryn y Groes i weddïo ac estyn allan. Mae pwysau mawr ar bobl yn y byd amaethyddol ar hyn o bryd. Gweddïwch drostynt ac y bydd yr Arglwydd yn achub llawer.

MUDIAD EFENGYLAIDD CYMRU
YN GWASANAETHU'R EGLWYS

www.mudiad-efengylaidd.org
Elusen 222407

DUW SY'N RHOI DOETHINEB

Dydd Iau

Rydym wedi canolbwyntio dros y dyddiau diwethaf ar ein dibyniaeth lwyr ar yr Arglwydd - rhywbeth sydd yn hollol groes i feddylfryd ein cymdeithas ni. Gwyddom mai gwyrdroi realiti a gwadu y'r hyn a wyddom i fod yn wir fyddai honni fod gennym ni'r ateb i'r problemau ysbrydol a welwn yng Nghymru heddiw. Yr unig ffordd y mae modd i ni wneud gwaith o bwys tragwyddol yw drwy ddibynnu'n llwyr ar ras, pŵer a doethineb yr Arglwydd.

Rhaid cofio nad yw dibynnu ar yr Arglwydd yn golygu ein bod yn ymollwng a'n cyfrifoldeb, nac yn rhoi esgus i segura neu beidio gweithio. Gwyddom ein bod wedi ein galw a'n rhoi yng Nghymru am reswm, ac felly ni ddylem eistedd yn ôl gyda dim ond gofal arwynebol am ein ffrindiau, cymdogion a chyd-gymry. Mae'r adnodau heddiw yn rhoi hyder mawr i ni.

Does dim un ateb syml i gyrraedd pobl Cymru gyda'r efengyl. I rai bydd yr Arglwydd am iddynt barhau ar y llwybr y maent arno, ond i eraill gall olygu newid cyfeiriad llwyr. Boed i ni gael y gwyleidd-dra, ffydd a chryfder i blygu a gofyn i Dduw am ddoethineb i ddilyn y llwybr y mae Ef am i ni ei ddilyn.

> ***Ac os oes un ohonoch yn ddiffygiol mewn doethineb, gofynned gan Dduw, ac fe'i rhoddir iddo, oherwydd y mae Duw yn rhoi i bawb yn hael a heb ddannod. Ond gofynned mewn ffydd, heb amau, gan fod y sawl sy'n amau yn debyg i don y môr, sy'n cael ei chwythu a'i chwalu gan y gwynt.***
>
> *Iago 1:5-6*

PWYNTIAU GWEDDI

DIOLCHGARWCH A MAWL

Diolchwch i Dduw ei fod yn rhoi doethineb i'r rhai sydd yn gofyn.

YMATEB AC YSTYRIED

Ydych chi'n agored i'r posibilrwydd fod Duw am i chi newid eich meddwl?

GOFYN

Gofynnwch i Dduw am ddoethineb. Gweddïwch y bydd arweinwyr yr Eglwys yn ceisio'r Arglwydd cyn ymateb neu weithredu.

ENGHREIFFTIAU O GYMRU

Rydym yn ymwybodol am nifer o eglwysi sydd wedi newid y ffordd y maent yn cynnal eu 'cyfarfodydd busnes' gan roi llawer mwy o bwyslais ar weddi drwy gydol y cyfarfodydd. Maent yn dweud fod hyn wedi bod yn gymorth mawr wrth geisio ewyllys yr Arglwydd, yn enwedig wrth ddelio gyda materion anodd.

Mae gymaint o adnoddau ar gael i helpu pobl i ddeall y Beibl yn well gyda Scripture Union Cymru wedi cynhyrchu rhai i bobl ifanc.

Gweddïwch dros Peter Harris, arweinydd tîm newydd UCCF Cymru sydd ar ei flwyddyn gyntaf yn y gwaith o arwain y gwaith yn y Colegau a Phrifysgolion.

MUDIAD EFENGYLAIDD CYMRU
YN GWASANAETHU'R EGLWYS

www.mudiad-efengylaidd.org
Elusen 222407

MAE DUW YN ACHUB

Dydd Gwener

Byddai'n anghywir hawlio'r addewid hwn a roed i'r holl ddynoliaeth fel addewid arbennig i Gymru - eto mae gwirionedd ac addewid perthnasol i ni heddiw: Mae Duw yn achub.

Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn adnabod rhai garddwyr arbennig; pobl sy'n codi cywilydd arnom i gyd wrth droi i fyny yn y capel gyda'u tomatos, tatws ac afalau i rannu gydag eraill. Ond mae'r garddwyr gorau yn ddibynnol ar elfennau y tu allan i'w rheolaeth - haul, tir, glaw a hadau. Eto, yn yr adnodau yma gwelwn nad oes angen unrhyw beth ar Dduw, gall Duw gymryd tir sych a diffaith a'i droi yn ffrwythlon er Ei ogoniant.

Mae llawer o dir ysbrydol Cymru yn sych, ond nid yw hynny'n broblem i'r Arglwydd. Mae'r Beibl, hanes a'n calonnau yn tystio i'r ffaith y gall Duw drawsnewid y tir mwyaf caled a diffaith i mewn i dir ffrwythlon.

Rydym wedi arfer gyda'r meddylfryd 'top i'r llawr' yn ein cymdeithas ni heddiw, hynny yw, mai'r ffordd orau o drawsnewid rhywle yw drwy weithio o'r top i'r gwaelod drwy wleidyddiaeth, arweinwyr arbennig neu brosiectau wedi eu trefnu. Er nad yw'r ffordd yma o feddwl yn anghywir (a gall Duw fendithio mewn unrhyw ffordd y mae'n gweld yn dda), rhaid sylweddoli nad oes angen i Dduw weithio o'r top i'r gwaelod yn ein cymdeithas - gall wneud i laswellt godi o'r tir! Gweddïwch y byddwn yn gweld bywydau a chymunedau yn cael eu trawsnewid gan bŵer yr Ysbryd.

Tywalltaf ddyfroedd ar y tir sychedig a ffrydiau ar y sychdir; tywalltaf fy ysbryd ar dy had a'm bendith ar dy hiliogaeth. Tarddant allan fel glaswellt, fel helyg wrth ffrydiau dyfroedd. Dywed un, "Rwyf fi'n perthyn i'r ARGLWYDD'; bydd un arall yn cymryd enw Jacob, ac un arall drachefn yn ei arwyddo'i hun, 'Eiddo'r ARGLWYDD', ac yn ei gyfenwi ei hun, 'Israel'.

Eseia 44:3-5

PWYNTIAU GWEDDI

DIOLCHGARWCH A MAWL

Diolchwch i Dduw ei fod yn parhau i achub pobl yng Nghymru.

YMATEB AC YSTYRIED

Ydych chi yn ddisgwylgar wrth rannu'r efengyl gydag eraill?

GOFYN

Gofynnwch i'r Arglwydd fendithio ein gwlad drwy achub pechaduriaid sydd ar goll a dod a nhw yn rhan o'i deulu. Boed i ni glywed ein setiau radio, weld ar ein setiau teledu a darllen ar ein cyfryngau cymdeithasol, bobl yn tystio eu bod yn eiddo i'r Arglwydd.

ENGHREIFFTIAU O GYMRU

Cafodd myfyriwr ei achub mewn ymgyrch ym Mhrifysgol Bangor yn ddiweddar.

Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi clywed am bobl yn ymweld ag eglwysi wedi iddynt gael breuddwyd neu weledigaeth yn dweud wrthynt am ddod at Iesu.

Mae rhai eglwysi o gwmpas y wlad yn gweld tyfiant gwirioneddol gyda rhywun newydd yn y cyfarfod bob Sul.

MUDIAD EFENGYLAIDD CYMRU
YN GWASANAETHU'R EGLWYS

www.mudiad-efengylaidd.org
Elusen 222407

MAE DUW YN RHOI EI HUNAN I NI

Dydd Sadwrn

Beth ydym ni eisiau?

Rwy'n siŵr mai dymuniad llawer heddiw fyddai buddugoliaeth dros Loegr yn y rygbi, ond beth ydym ni eisiau fel pobl yr Arglwydd yng Nghymru? Gellir rhoi nifer o atebion fyddai'n gywir iawn: mwy o adnoddau, mwy o dröedigaethau, mwy o gariad, llai o dlodi, llai o ragrith yn yr Eglwys.

Rydym yn byw mewn dyddiau lle mae modd i ni gael gymaint o bethau. O declynnau i dai, o ffrindiau i deulu ac o lwyddiant i iechyd - mae'r rhain yn bethau y mae cymaint ohonom yn eu ceisio. Nid ydynt yn anghywir ynddynt eu hunain, ond ni fydd yr un ohonynt yn bodloni yn llwyr. Rydym wedi'n creu i fwy.

Mae'r addewid heddiw yn tynnu ein sylw at y posibilrwydd mwyaf rhyfeddol - mae modd i ni gael Duw!

Wrth i ni orffen yr wythnos hon o weddi, rydym am dynnu ein sylw yn ôl i wirionedd sylfaenol. Er y dylem ofyn i'r Arglwydd weithio yng Nghymru, nid ddylai ein prif ffocws fod ar yr hyn y gall Duw ei roi i ni (fyddai hynny hyd yn oed ddim yn bodloni'n llwyr). Dylem ganolbwyntio ar geisio Duw yn Dad, Mab ac Ysbryd Glan gan ymhyfrydu ynddo. Pan fyddwn yn ei ddarganfod Ef, bydd popeth arall yn disgyn i le a'r pwrpas yn dod yn glir.

Ymhyfryda yn yr ARGLWYDD, a rhydd iti ddeisyfiad dy galon.

Salm 37:4

PWYNTIAU GWEDDI

DIOLCHGARWCH A MAWL

Molwch yr Arglwydd gan ei fod wedi'n creu i gael perthynas gyda Fe.

YMATEB AC YSTYRIED

Pa gamau ymarferol y medrwn eu cymryd i ymhyfrydu yn yr Arglwydd?

GOFYN

Gweddiwch y bydd yr Eglwys yn ein gwlad yn tyfu mewn defosiwn a chariad tuag at Dduw. Boed i'r cariad hwnnw weithio ei ffordd allan yn ein bywydau er gogoniant i Dduw.

Ni wyddom beth fydd yn digwydd yn y flwyddyn nesaf. Mae'n bosib y gwelwn waith Ysbrydol rhyfeddol yn digwydd yn ein gwlad, ond ar y llaw arall posib y cawn amser anodd a chael ein siomi gan sefyllfaoedd a phobl arbennig. Rhaid i ni ymddiried fod ffyrdd yr Arglwydd yn berffaith. Byddai'n hawdd i ni geisio pethau gwahanol: mwy o adnoddau, adeilad newydd i'r eglwys, mwy o weithwyr, mwy o gyfle i rannu'r efengyl, mwy o dröedigaethau - pethau da iawn. Ond rhaid i'n ffocws fod ar geisio ac ymhyfrydu yn yr Arglwydd. Wrth i'n llygaid ryfeddu a ras ein Harglwydd Iesu Grist, cariad y Tad a chymdeithas yr Ysbryd Glan, byddwn yn cael y cyfan y mae ein calonnau yn eu deisyfu.

MUDIAD EFENGYLAIDD CYMRU
YN GWASANAETHU'R EGLWYS

www.mudiad-efengylaidd.org
Elusen 222407

GWEDDIWCH DROSOM OS GWELWCH YN DDA

Rydym yn ddibynol ar Dduw ym mhob ffordd. Hebddo, ni allwn wneud dim, ond medrwn wneud pob dim drwy'r Un sy'n ein nerthu. Mae gweddi yn rhan holl bwysig o waith MEC.

Fyddech chi'n ystyried derbyn un o'n bwletinau gweddi? Bron yn wythnosol rydym yn gyrru gwybodaeth allan am weinidogaeth arbennig – e.e. ymgyrch neu adnoddau. Medrwch ychwanegu eich enw i fynd ar un o'r rhestrau hyn trwy'r wefan:

MAE'N RHESTRAU GWEDDI YN CYNNWYS:

- LLYTHR GWEDDI CYFFREDINOL
- YMGYRCHOEDD
- DIGWYDDIADAU
- GWERSYLLOEDD
- GWEINIDOGION
- ADNODDAU'R WASG
- BRYN Y GROES

www.mudiad-efengylaidd.org/gweddi

MUDIAD EFENGYLAIDD CYMRU
YN GWASANAETHU'R EGLWYS

EVANGELICAL MOVEMENT OF WALES
SERVING THE CHURCH

SWYDDFA'R GOGLEDD

Canolfan Manna, 31 Ffordd Caergybi, Bangor, Gwynedd, LL57 2EU
01248 354653
swyddfa@mudiad-efengylaidd.org
Elusen 222407
www.mudiad-efengylaidd.org